

Atgofion bore oes yn Llangernyw

gan Mary Ellen Roberts(1896-1966)

Un o'r pethau cyntaf wyf yn ei gofio yw cael fy nghario ar fraich fy mam, Jane Jones (1860-1925), i'r capel pan oeddwn rhwng dwy a thair blwydd oed, cyn i fy chwaer ac yn ddiweddarach fy mrawd gael eu geni.

Yn ystod yr amser hwnnw, roedd rhyw foneddiges o Saesnes yn aros mewn fferndy gyfagos am rai wythnosau yn ystod yr haf. Byddai hi yn mynd a mi allan am dro, ac i gael te gyda hi. Ni wn pwy oedd, nac o ba le roedd hi'n dod, ond rhaid ei bod yn ariannog i allu dyfod i aros am wyliau hir.

Gof oedd fy nhad, (William Jones (1851-1932)) a hyfrydwch oedd cael chwarae yn yr efail a gwyllo fy nhad wrth ei waith yn pedoli ceffylau, a byddem ni blant yn ymladd am gael chwythu'r fegin fawr.

Cafodd fy mrawd William Rawson, lawer o afiechyd yn ystod pum mlynedd cyntaf ei oes a bu agos i ni ei golli fwy nag unwaith. Cafodd fy rhieni lawer o drafferth a phryder wrth ei fagu, ond gwelodd ei iechyd yn y man.

Diystyrru'r Gymraeg yn llwyr

Yn Llangernyw yr oedd Ysgol yr Eglwys tua milltir a hanner o'm cartref. Eglwys y plwyf y Ficerdy, Capel M.C. Cefn Coch, a Chapel y Bedyddwyr ac hefyd dair siop, dwy dafarn, tair efail y gof a melin heb fod ymhell o'r Llan. Yn Ysgol yr Eglwys roedd yn rhaid i ni ddysgu Catecism yr eglwys, beth bynnag fo ein henwad crefyddol. Nid oedd Cymraeg o fewn y terfynau.

Gan fod yr Eglwys yn ymyl, byddem yn clywed y gloch yn canu ar ddiwedd eladdu, yr un ding-dong pruddaidd yn awr ac yn y man am tua awr neu ragor hyd nes i'r cynhebrwng gyrraedd.



Mary Ellen Roberts (1896 -1966)



Ysgol yr Eglwys, Llangernyw

Yr oedd yn agos i gant o blant yn yr ysgol, yr adeg honno, a phedwar o athrawon, sef Mr Henry Barnwell, yr ysgolfeistr a thair o athrawesau. Dyn creulon oedd y meistr, a byddem ni ei ofn nes y byddai fy rhieni yn cael cryn drafferth ein hanfon i'r ysgol ambell waith. Yr oedd yr ysgolfeistr a'i denlu yn byw yn Nhŷ'r Ysgol, ac yr oedd tad yr ysgolfeistr sef William Bramwell, yn byw yno gyda hwy. Yr oedd yntau wedi bod yn ysgolfeistr yno cyn ei fab, pan oedd fy nhad yn fachgen ysgol. Yr oedd yr hen wr yn bedwar ugain oed, ac yn flin iawn ar brydiau, a byddai'r bechgyn yn chwarae triciau ag ef er mwyn cael hwyll am ei ben yn gwylltio, a gwylltio yn gynddeiriog wnaï, a gwae i'r bechgyn a âi i'w afael.

Canu'r fflwiwt yn achosi poendod

Yr adeg honno 'roedd siopau'r Llan yn gwerthu 'lucky bags' fel yr oeddem ni yn eu galw, dimai yr un oedd eu pris, ac wedi eu hagar yr oedd ychydig felysion oddi mewn a rhyw degan bach, fel chwibanogl neu fflwiwt, cadwen, brooch neu fodrwy. Cofiaf am eneth chwe mlwydd oed wedi cael fflwiwt yn un o'r rhain ac yn dod i'r ysgol gan ei chwythu. Yng nghyntedd y genethod yr oedd nifer o enethod yn eistedd ar gist. Yr oedd drws i fynd o'r cyntedd i barlwr Tŷ'r Ysgol, ar glo bob amser, a'r unig adeg y byddai yn cael ei agor oedd pan fyddai eisiau symud y piano o'r tŷ i'r ysgol pan gynhelid cyngerdd yno. Pan ddaeth yr eneth fach â'r fflwiwt i mewn i'r cyntedd, yr oedd rhywun yn canu piano yn y parlwr, a dyna un o'r genethod mwyaf yn gofyn i'r fechan am fenthg y fflwiwt am fonud, a dyna hi'n gwthio un pen y fflwiwt trwy dwll y clo i'r parlwr a chwythu a'i holl egni, ac wedyn yn rhoi'r fflwiwt yn ôl i'r fechan, a dyna nhw i gyd yn rhedeg allan oddi yno a gadael yr eneth fach ddiniwed i gael y bai.

Byddem ni blant yr ysgol yn cael te parti a mabolgampau bob blwyddyn gan y boneddigion oedd yn byw yn y plas. Hwy oedd perchnogion y Llan a'r wlad o amgylch. Byddem yn edrych ymlaen i'r wledd hon a mawr fyddai y paratoi ar gyfer

y diwrnod, a byddai'n rhaid i ni ganu ac adrodd o flaen y 'bobl fawr'. Nid oedd rhyw lawer o bleserau yn dod i'n rhan yr adeg honno, oddigerth trip yr ysgol Sul, pan aem i lan y môr mewn wagenni yn cael eu tynnu gan wedd o geffylau trymion, araf. Yr oedd meinciau caled ar y wagen i ni eistedd arnynt. Mae teithio heddiw yn bur wahanol. Nid oeddem ni blant erioed wedi gweld 'living picture'. Ar ôl tyfu i fyny a gadael cartref y gwelais i y ffilm am y tro cyntaf.

Atgofion melys sydd gennyf am y capel yn y wlad, capel M.C.. Byddai rhaid i ni gadw ein teganau mewn cwpwrdd o'r golwg bob nos Sadwrn ac nid oeddwn i gyffwrdd hwy hyd ddydd Llun. Y oedd yn rhaid mynd i'r capel dair gwaith bob Sul beth bynnag fo'r tywydd. Yr oeddem yn gallu gwneud hynny gan nad oedd y capel ymhell, dim ond gwaith deg munud o gerdded. Afiechyd yn unig a'n cadwon gartref. Roedd gennyf y *Band of Hope*, â'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn yr haf, gan fod yn haws i'r plant ddod nag yn y gaeaf. Byddem yn mwynhau'r cyfarfodydd hyn, ac ar ddiwedd y tymor, caem de parti a chyngerdd bach i ddilyn.

Dylanwad y Diwygiad yn drwm arno

Atgof hefyd am fy nhaid William Williams, (un o frodyr hynaf y Parch David Forest Williams y soniwyd amdano yn *Y Casglwr Haf 2004*) a Nain Ellen, rhieni fy mam. Yr oedd eu tŷ yn agos i'r capel. Saer oedd taid wrth ei alwedigaeth a chofiaf fwy am taid nag am nain oherwydd bu hi farw pan oeddwn i'n saith mlwydd oed, ond bu Taid fyw nes i mi gyrraedd fy un ar hugain. Yr oedd yn flaenor yng nghapel y Methodistiaid Cefn Coch, ac yn arweinydd y gân am flynnyddoedd cyn cael organ i'r Capel. Yr oedd ef yn ddyn cryf, iach, cadarn ac o gymeriad cadarn, yn Galfin ddiysgog, ac yn weddiwr mawr, ac yn biwritanaidd. Un o golofnau '59 a bu dylanwad y diwygiad arno weddill ei oes. Nid oedd yn cyd-weld â chynnal

(Parhâd ar dudalen 21)